*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **11/02/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Ymateb i'r atebion a ddaeth i law yn ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2018** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, er mwyn cael cymeradwyaeth iddo, ymateb drafft i'r atebion ysgrifenedig a gafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod ei ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2018, cafodd yr Aelodau wybod am yr ymateb i'w ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018 ynglŷn â'r posibilrwydd o weld amcangyfrif o £1.9 miliwn o gynnydd yng nghyllideb refeniw'r Awdurdod yn 2019/20.

3 Ar ôl ystyried yr ymateb, ochr yn ochr â gwybodaeth arall, penderfynodd yr Awdurdod gael cynnydd o £1.7 miliwn yn ei gyllideb ac i geisio cyflawni ei Amcan Gwella a Llesiant presennol yn 2019/20.

4 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymateb drafft gan yr Awdurdod i'r pwyntiau allweddol a wnaed yn yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law oddi wrth unigolion a sefydliadau yn ystod yr ymgynghoriad.

5 Ystyrir bod y canlynol yn arferion da: cyhoeddi adborth digonol; nodi faint o ymatebion a ddaeth i law oddi wrth y bobl y buom yn ymgynghori â nhw; esbonio'r ymatebion hynny a disgrifio sut maent wedi dylanwadau ar y broses o wneud penderfyniadau.

**ARGYMHELLIAD**

6 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cyhoeddi ymateb drafft yr Awdurdod i'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018.

**CEFNDIR**

7 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

8 Fel rhan o broses gynllunio'r Awdurdod, mae disgwyl iddo gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion y mae'n eu hystyried, ac i dalu sylw i'r ymateb hwnnw wrth gwblhau ei gynlluniau yn derfynol.

9 Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2018, bu'r Awdurdod yn ystyried yr ymateb a ddaeth i law i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliodd yn 2018, a phenderfynodd gadw at ei amcanion gwella a llesiant presennol yn 2019/20.

10 Roedd yr rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law yn ateb y tri chwestiwn yn yr arolwg heb ragor o sylwadau. Yn y cyfarfod yn Rhagfyr 2018, cafodd yr Aelodau ddadansoddiad o'r ymatebion hynny, ynghyd â chrynodeb o'r prif bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion ysgrifenedig.

11 Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd drwy ddefnyddio'r holiadur ar-lein weld cynnydd yng nghyllideb yr Awdurdod yn hytrach na gostyngiad mewn gwasanaethau tân ac achub, ac roeddent yn derbyn y gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y biliau treth gyngor.

12 Er eu bod yn cefnogi amcangyfrif o £1.9 miliwn o gynnydd yng nghyllideb yr Awdurdod yn 2019/20, roedd cyfran sylweddol o'r bobl a ymatebodd hefyd eisiau gweld yr Awdurdod yn gostwng ei gostau rhedeg ond heb ostwng lefel yr argaeledd nac ansawdd y gwasanaethau rheng flaen.

**GWYBODAETH**

13 Yn atodiad A, rhoddir drafft o adborth i'r ymateb i'r ymgynghoriad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn gysylltiedig ag Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Mae disgwyl y bydd yr Awdurdod yn cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu a cheisio cyflawni'r amcanion hynny. |
| Cyllideb | Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gyllideb refeniw. Roedd yr ymateb yn cadarnhau bod y cyhoedd o blaid cynyddu'r gyllideb yn 2019/20. |
| Cyfreithiol | Ni chanfuwyd dim. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr ymateb yn ymddangos ar wefan yr Awdurdod yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| Risgiau | Ystyrir mai arfer dda, sy'n hybu tryloywder ac yn lleihau unrhyw risg o her gyfreithiol, yw darparu lefel briodol o adborth yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus. |

Atodiad A

**YMATEB DRAFFT GAN YR AWDURDOD**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru rhwng 14 Medi 2018 a 2 Tachwedd 2018.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a anfonodd ymateb ac am y gefnogaeth a gawsom i'r cynnig i gynyddu ein cyllideb refeniw flynyddol yn 2019/20. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn fanwl, rydym o'r farn ei bod yn bwysig darparu sicrwydd i'r cyhoedd – ac yn enwedig y cynghorau sir yng Ngogledd Cymru – ein bod ni'n cydnabod bod heriau ariannol a phenderfyniadau anodd yn wynebu'r cynghorau sir ledled y rhanbarth a'n bod ni wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â pharhau i chwilio am ffyrdd o wneud arbedion effeithlonrwydd.

Fel yr esboniwyd yn ein dogfen ymgynghori, bu'r broses o osod cyllideb fantoledig yn broses arbennig o anodd i'r Awdurdod eleni. Nid yn unig y mae'r Awdurdod yn wynebu ambell gynnydd anochel yn y costau yn 2019/20, ond mae hefyd yn gorfod ennill tir ar ôl tair blynedd ddilynol o gadw'r cyfraniadau gan y cynghorau sir yn annaturiol o isel drwy gymryd arian o'i gronfeydd ariannol ei hun.

Tra roedd defnyddio cronfeydd wrth gefn fel hyn yn gweithio'n dda fel dewis yn lle gynyddu'r cyfraniadau, mae gwir gost darparu gwasanaethau wedi parhau i gynyddu'n raddol yn y cyfamser, ac mae'n ddealladwy fod yr Awdurdod yn gyndyn o fentro gwario'r cronfeydd ariannol cyfyngedig sydd ganddo nes bod dim ar ôl i syrthio'n ôl arno.

Ar ddechrau'r ymgynghoriad, nid oedd yr Awdurdod yn bwriadu ceisio cael arbedion mawr oherwydd roedd o'r farn y byddai lefel y risg yn rhy fawr ar hyn o bryd. Nid yw wedi diystyru gwneud rhai arbedion, ond am lawer o resymau roedd yn gyndyn o wneud arbedion mor fawr na fyddai modd eu gwneud ond drwy, er enghraifft, gau gorsafoedd tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân.

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r farn hon, ac roedd hyn yn gymorth pan wnaeth yr Awdurdod y penderfyniad anodd i ofyn am gynnydd o £1.7 miliwn yn y cyfraniadau blynyddol gan y cynghorau sir yn 2019/20.

Roedd yr ymateb a ddaeth i law yn cynnwys nifer o awgrymiadau am ffyrdd o leihau cost darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Rydym yn ddiolchgar am yr awgrymiadau hyn ac rydym yn eu hystyried fesul un isod.

Daeth 193 o ymatebion i law i'n hymgynghoriad ar-lein, ynghyd ag unarddeg o ymatebion ysgrifenedig nad oedd, o reidrwydd, yn ateb y tri chwestiwn a oedd yn yr holiadur. Ni chafwyd ateb i bob cwestiwn gan bawb a ymatebodd.

I Gwestiwn 1:

- roedd 61% o'r farn ei bod yn rhesymol gofyn i'r cynghorau sir dalu'r £1.9 miliwn yn ychwanegol, a byddai'n well ganddynt fod y swm yn cael ei gasglu oddiwrth y cynghorau sir yn hytrach na gweld gostyngiad yn y gwasanaethau tân ac achub lleol.

  roedd 24% yn cytuno ei bod yn rhesymol gofyn i'r cynghorau sir am yr arian ychwanegol ond roeddent o'r farn y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau hefyd.

  nid oedd 15% o'r farn y dylai'r cynghorau sir dalu unrhyw beth yn agos i £1.9 miliwn yn ychwanegol hyd yn oed os yw hynny'n golygu colli rhai gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

I Gwestiwn 2:

- roedd 45% o'r bobl a ymatebodd o'r farn y byddai ychwanegu £6 neu £7 at fil treth cyngor cyfartalog Band D y flwyddyn nesaf yn golygu gwerth ardderchog a y byddai hynny'n werth ei dalu.

  roedd 32% o'r bobl a ymatebodd yn ystyried bod £6 neu £7 yn ychwanegol yn swm derbyniol, ond dim mwy na hynny.

  roedd 9% o'r bobl a ymatebodd yn ystyried bod £6 neu £7 yn ychwanegol braidd yn ormod i'w ofyn.

  roedd 14% o'r bobl a ymatebodd yn ystyried bod £6 neu £7 yn ychwanegol lawer yn ormod i'w ofyn.

I Gwestiwn 3:

- nid 24% o'r bobl a ymatebodd o'r farn y dylid disgwyl i'r Awdurdod leihau ei gostau rhedeg.

  roedd 61% o'r bobl a ymatebodd o'r farn y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, ond dim ond i'r graddau na fyddai hynny'n lleihau lefel yr argaeledd neu ansawdd y gwasanaethau rheng flaen.

  roedd 13% yn meddwl y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau ac roeddent yn derbyn y gallai rhai gwasanaethau rheng flaen orfod cael eu lleihau ryw gymaint.

  roedd 3% o'r farn y dylai gwasanaethau tân ac achub gostio cyn lleied â phosibl, hyd yn oed os yw hynny'n golygu cau gorsafoedd tân a diswyddo diffoddwyr tân.

Derbyniwyd yr unarddeg ymateb ysgrifenedig oddiwrth: aelodau o'r cyhoedd, cynghorau sir, cyngor tref ac Undeb yr FBU.

- Roedd un person yn canmol ymroddiad y diffoddwyr tân ar alw yn eu hardal; roedd un yn dweud y byddai'n falch o wario £6 neu £7 yn ychwanegol ar ei dreth gyngor er mwyn cadw lefel y gofal tân; roedd un yn awgrymu ehangu rôl y gwasanaeth tân ac achub; un yn awgrymu rhai mesurau cynhyrchu incwm/arbed costau a fabwysiadwyd gan gynghorau sir ac y gallai'r ATA fod eisiau eu hystyried; ac roedd un yn pwysleisio'r sicrwydd a ddaw o gael gwasanaeth tân ac achub ar gael drwy'r amser.
- Roedd Undeb yr FBU yn cefnogi cynnydd yn y cyfraniadau, ac er eu bod yn cydnabod y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, roeddent o'r farn na ddylai hyn fynd mor bell â gostwng lefel yr argaeledd neu ansawdd y gwasanaethau rheng flaen.
- O'r ymatebion a ddaeth gan y cynghorau sir, roedd un ohonynt yn pwysleisio bod angen i'r Awdurdod geisio ffyrdd o leihau ei gostau; ac roedd un arall – er ei fod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a roddir gan yr Awdurdod ac yn derbyn y cynnig i gynyddu'r cyfraniadau – yn cyfeirio at yr amgylchedd ariannol hynod heriol ac at benderfyniad yr Awdurdod yn y gorffennol i beidio â chymryd camau a fyddai wedi gallu sicrhau arbedion sylweddol. Roedd y cyngor hwn yn siomedig at yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn brinder cynigion i wneud arbedion, ac roedd yn gofyn i'r Awdurdod edrych eto ar y cydbwysedd rhwng gwneud arbedion a chynyddu lefel y cyfraniadau gan y cynghorau sir.
- Roedd un cyngor arall eisiau i'r Awdurdod barhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd ond nid oedd eisiau gweld gostyngiad yn y gofal tân nac mewn gwasanaethau ymatebol eraill hyd at lefel beryglus, ac roedd yn cyfeirio at y cyd-ddiddordeb – fel partneriaid – yn niogelwch y cyhoedd.
- Roedd un cyngor yn hapus i gadarnhau bod y cynnydd yn y cyfraniad wedi cael ei ymgorffori yn ei broses o gynllunio'r gyllideb, a hynny heb unrhyw sylwadau negyddol gan ei Aelodau.
- Roedd un cyngor yn cydymdeimlo â sefyllfa'r Awdurdod ac yn dweud bod ganddo ffydd yn yr Awdurdod i ddefnyddio ei grebwyll ei hun wrth sicrhau cydbwysedd rhwng effeithlonrwydd ei gyllideb a pharhad gwasanaethau a'u hansawdd, ac i ddod i benderfyniad gwybodus drosto ei hun.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwneud arbedion yn ymwneud â'r canlynol:

- **<u>Bod yn 'ymatebwyr cyntaf':</u>**

  Ers sawl blwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cael trefniadau partneriaeth pan fo hynny'n gwneud synnwyr. Mae hyn wedi cynnwys treialu Tîm Cymorth Cymunedol, sef pryd byddai aelodau o'n staff ni yn cael hyfforddiant arbennig i ymateb, yn lle'r Gwasanaeth Ambiwlans, i bobl (hŷn fel arfer) sydd wedi cael codwm gartref, sef pobl sydd heb gael eu hanafu ond sydd angen cymorth arnynt i godi'n ôl i fyny.

  Fel y dywedwyd yn ein hasesiad blynyddol o berfformiad yn 2017/18 (a gyhoeddwyd yn Hydref 2018):

  "Mae'n amlwg fod manteision i gydweithio â gwasanaethau brys a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a hynny o ran arbedion ariannol ac o ran darparu gwasanaethau gwell i'n cymunedau. Cefnogwyd y fenter Tîm Cymorth Cymunedol gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r tri gwasanaeth brys, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Galw Gofal / Care Connect, a Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru."

  Hefyd, rhwng Rhagfyr 2015 a Medi 2017, cymerodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ran mewn cynllun treialu cyd-ymateb lle roedd staff tân ac achub yn ymateb gyda'r staff ambiwlans i argyfyngau meddygol a oedd yn bygwth bywyd ar unwaith (e.e. trawiad ar y galon). Roedd y cynllun treialu yn dilyn cynlluniau tebyg a gafodd eu lansio gan 43 o Wasanaethau Tân ac Achub ledled y DU.

  Mae Cyd-Ymateb yn parhau'n destun trafodaeth ar lefel genedlaethol fel rhan o'r trafodaethau ynglŷn â chyflogau diffoddwyr tân, ac ni fyddai'r Awdurdod yn dymuno cymryd camau ymlaen llaw am y mater.

- **<u>Cynhyrchu incwm:</u>**

  Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng *codi tâl* (sef adfer costau darparu gwasanaethau disgresiynol) a *masnachu* (i greu elw). Yn amlwg, nid yw adfer costau yn cynhyrchu incwm ychwanegol, ac ni all wneud hynny chwaith. O ran cynhyrchu elw drwy fasnachu, byddai hynny'n gofyn am broses gyfreithiol gymhleth o sefydlu a rhedeg cwmni masnachu ar wahân – sef endid cyfreithiol gwahanol gyda'i fwrdd cyfarwyddwyr ei hun. Wrth benderfynu a fyddai gwneud hynny yn werth y gost a'r ymdrech, un ystyriaeth gychwynnol fyddai maint ddisgwyliedig y farchnad a'r arenillion a ddisgwylid o ran y costau a fyddai'n gysylltiedig.

- **<u>Rhannu swyddogaethau gweinyddol gyda sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill (e.e. archwilio, y gyflogres, caffael neu Adnoddau Dynol) / rhoi gwasanaethau ar gontract allanol:</u>**

  Mae llawer o swyddogaethau cefnogol yr Awdurdod eisoes yn cael eu cyflawni dan drefniadau gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni pan fo hynny'n cynnig gwerth gwell a/neu wasanaeth gwell nag y gallen ni eu darparu ein hunain. Er enghraifft, mae ein hadeiladau yn cael eu rheoli drwy gontract gyda Heddlu Gogledd Cymru; mae gwasanaethau ariannol, y gyflogres ac archwilio mewnol yn cael eu cyflawni drwy gontractau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Yn aml, mae'r mathau hyn o drefniadau yn gallu manteisio ar sgiliau a gallu sydd o fewn adrannau sefydliadau mwy o faint. Fodd bynnag, er bod contractau allanol yn gallu bod yn ddewis defnyddiol, ni ddylid rhagdybio bod hynny'n wastad yn costio llai na chynnal y swyddogaeth yn fewnol. Er enghraifft, pan fo modd darparu'r swyddogaeth yn ddigonol gan un neu ddau o aelodau o staff, mae'r posibilrwydd o wneud arbedion neu roi'r swyddogaeth honno ar gontract allanol yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn neu'n amhosibl. Felly, er bod y posibilrwydd o roi gwaith ar gontract allanol yn cael ei ystyried fel mater o drefn, anaml iawn y mae'r arbedion posibl yn rhai mawr iawn.

- **<u>Ail-gyllido dyledion;</u>**

  Mae'r Awdurdod yn cymryd gofal i ystyried effaith ei fenthyciadau cyfalaf ar y refeniw. Er enghraifft, yn Rhagfyr 2017, diwygiodd ei bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn ymwneud â benthyciadau digymorth ar dir ac adeiladau. Drwy wasgaru'r gost dros gyfnod hirach o amser, roedd modd gwneud tua £366,000 o arbedion blynyddol yn y gyllideb.

Fel Awdurdod Tân ac Achub, rydym yn cydnabod bod dyletswydd arnom i sicrhau ein bod ni'n gallu darparu lefel ac ansawdd y gwasanaethau tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl ac nad ydym yn creu lefel annerbyniol o risg yn yr ardal. Ond ar adeg pan fo pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau ariannol anodd, rydym yn cydnabod bod dyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn parhau mor effeithlon â phosibl.

Felly, dyma gadarnhau bod cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 wedi cael ei gosod fymryn yn is na'n hamcangyfrif cychwynnol. Nid oes bwriad gennym i leihau'r gwasanaethau tân ac achub ar hyn o bryd, ond fe fyddwn ni'n parhau i geisio gwneud arbedion effeithlonrwydd.